

“Wele fi’n anfon fy nghennad o’th flaen”

Y Proffwydi



Cymun Bendigaid ar Gân

â Glân Fedydd

Trydydd Sul yr Adfent

11 Rhagfyr 2022 am 9.15am




Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.



Rydych chi'n sefyll rwan
lle safodd Deiniol bron i
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn
525, bu iddo gynnwll o'i
gwmpas gymuned lawn
ffydd, gobaiith a chariad,
gan godi o'i chwmpas
ffens gyll—y **bangor**
gwreiddiol—iddi'n gysgod
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch
chwithau, hefyd, eich
cofleidio yma gan yr un
ffydd, gobaiith a chariad
a gyhoeddir gennym
heddiw ac sy'n ein
cyfareddu o hyd.

Yn Cymun hwn...

Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd â
Christ mewn bara a gwin, ei Gorff a'i
Waed ef gyda ni.

1 Wrth inni ymgynnull, byddwn
yn paratoi ein hunain i gwrdd â
Christ trwy gyffesu ein pechodau
— y ffyrdd yr ydym wedi galaru Duw
yn ein bywydau — ac yn derbyn
gollyngdod, sef sicrwydd o faddeuant
Duw.

2 Yna rydyn ni'n gwranddo ar
ddarlenniadau o'r Beibl, gan
ganfod yno arweiniad, her,
cysur a newydd da gan Dduw.
Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd
yn y Drindod Sanctaidd a chynnig i
Dduw ein gweddi dros bawb mewn
angen.

3 Yn galon i'n haddoliad heddiw,
byddwn yn cymryd bara a gwin,
byddwn yn gofyn am fendith
gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri'r
bara, ac — fel aelodau o Gorff toredig,
trwsiedig Crist — byddwn yn Cymuno.

4 Daw ein haddoliad i ben wrth
inni dderbyn bendith Duw, yn
gynhaliaeth inni wrth ymadael.

Waeth pa mor bell yn ôl y
gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae
croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os
hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf,
neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag
aelod o dîm yr Gadeirlan.

Ceir ffydd, gobaiith a chariad yma i
bawb.

Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llur' nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✕. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip gwyrdd**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copïau print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Plant a theuluoedd ifanc

Activities and crafts take place during the Choral Holy Eucharist every Sunday in the Lady Chapel, for any children up to the age of 11. The crafts and activities are varied, with at least one relating to the theme of the Eucharist itself. This space will be staffed by responsible adults, and children over the age of 5 will be able to come and go freely. Children will remain the responsibility of their parents or guardians at all times. Children who are aged 4 and under should, in the first instance, be accompanied by a parent or guardian unless a prior arrangement with those on duty on the day has been made.

O'r Ddarllenfa a Buchedd Bangor

Pob wythnos, anfonir ebost **O'r Ddarllenfa** at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Os nad ydych chi eisoes yn danysgrifiwr, dilynwch y cod QR, neu ewch i **cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/**

Buchedd Bangor yw ein cylchgrawn rheolaidd, sy'n cynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.

Buchedd Bangor



O'r Ddarllenfa From the Lectern



Trefn y gwasanaeth



Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch



Cynnull

Eryn



Clywaf atsain cân y bore,
cerdda dros y ddaear ddu;
dacw wawr y nefol olau –
Crist yn dyfod oddi fry;
aed breuddwydion, aed breuddwydion,
cwsg a syrthni oll o'n bron.

Seren newydd a ddisgleiria
tarfa bob afiachus wŷn;
Oen tragwyddol a ddynesa
i ddwyn traul dyledion dyn;
ceisiwn ninnau, ceisiwn ninnau
bawb mewn dagrau ran o'i ras.



**Fel pan ddelo yn y diwedd
i amgylchu'r byd â braw,
na ddisgynno ei ddicllonedd
arnom ni sy dan ei law;
bod gogoniant, bod gogoniant
byth i'r Drindod ddiwahân.**

Geiriau

Lladin o'r bumed ganrif

Cyfiethiad

Ab Ithel (John Williams, 1811-1862)

Cerddoriaeth | "Mannheim"

Friedrich Filitz (1804-1876)

Parhawn ar ein traed tan ddiwedd y Weddi Gasgl

Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

Amen.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

"Wele fi'n anfon fy nghennad o'th flaen, i baratoi'r ffordd ar dy gyfer."

Cyffes

Gan gynnull i ddathlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw,
ymbaratown gan gyffesu ein pechodau,

ger bron disgleirdeb Duw
sy'n llewyrch yn ein tywyllwch,
sy'n hidlo lludw'n dyheu,
sy'n ailgynnau ynom gyfiawnder a chariad.

Cyd-weddiwn.

**Dad nefol,
yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.
Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.
Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
maddeua inni'r cwbl a aeth heibio
ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni.
Amen.**

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthyh,
✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.

Amen.

Parhawn ar ein traed

Kyrie eleison

Kyrie eleison. Christe eleison. Kyrie eleison.

Cyfieithiad

Arglwydd trugarha. Crist trugarha. Arglwydd trugarha.

Cerddoriaeth

Offeren Glyn Rhosyn, Meirion Wynn Jones

Parhawn ar ein traed

Gweddi Gasgl

Gweddiwn.

O Waredwr Iesu Grist, a anfoneist dy genhadwr ar dy ddyfodiad cyntaf i baratoi dy ffordd o'th flaen: caniatâ i weinidogion a goruchwylwyr dy ddirgeleddau yn yr un modd baratoi ac arloesi dy ffordd, trwy droi calonnau'r anufudd i ddoethineb y cyfiawn, fel, ar dy ail ddyfodiad i farnu'r byd, y ceir ni'n bobl gymeradwy yn dy olwg di, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac yn dragwydd.

Amen.

Eisteddwn

Gair

Salmyddiaeth



✚ Ar d'orsedd gadarn plant ein plant eisteddant yn dragywydd.

✚ Ar d'orsedd gadarn plant ein plant eisteddant yn dragywydd.

“Cyfod, O Dduw, a thyrd i'th orffwysfa, ti ac arch dy nerth.

Bydded dy offeiriaid wedi eu gwisgo â chyfiawnder, a bydded i'th ffyddloniaid orfoleddu.”

Er mwyn Dafydd dy was, paid â throi oddi wrth wyneb dy eneniog.

✚ Ar d'orsedd gadarn plant ein plant eisteddant yn dragywydd.

Tyngaist i Ddafydd adduned sicr na thry oddi wrthi: “O ffrwyth dy gorff y gosodaf un ar dy orsedd.

Os ceidw dy bobl fy nghyfamod, a'r tystiolaethau a ddysgaf iddynt, bydd eu plant hwythau hyd byth yn eistedd ar dy orsedd.”

✚ Ar d'orsedd gadarn plant ein plant eisteddant yn dragywydd.

Oherwydd dewisodd Dduw Seion, a'i chwennych yn drigfan:

“Dyma fy ngorffwysfa am byth; yma y trigaf am imi ei dewis.

Gwisgaf ei hoffeiriaid ag iachawdwriaeth, a bydd ei ffyddloniaid yn gorfoleddu.”

✚ Ar d'orsedd gadarn plant ein plant eisteddant yn dragywydd.

Salm 132:8-17

Cerddoriaeth

Joe Cooper a Simon Ogdon; tôn V, terfyniad cyntaf

Darlleniad

Darlleniad o'r Lyfr y Proffwyd Malachi.

Dyma'r hyn a ddywed y Sanctaidd Un: "Wele fi'n anfon fy nghennad i baratoi fy ffordd o'm blaen; ac yn sydyn fe ddaw'r Sanct yr ydych yn ei geisio i mewn i'w deml; y mae cennad y cyfamod yr ydych yn hoff ohono yn dod," medd Duw'r Lluoedd. Pwy a all ddal dydd ei ddyfodiad, a phwy a saif pan ymddengys? Y mae fel tân coethydd ac fel sebon golchydd. Fe eistedd i lawr fel un yn coethi a phuro arian, ac fe bura feibion Lefi a'u coethi fel aur ac arian, er mwyn iddynt fod yn addas i ddwyn offrymau i'r Bywiol Un. Yna bydd offrwm Jwda a Caersalem yn hyfrydwch i'r Bythol Un, fel yn y dyddiau gynt a'r blynyddoedd a fu. "Yna nesâf atoch i farn, yn dyst parod yn erbyn dewiniaid a godinebwyr; yn erbyn y rhai sy'n tyngu'n gelwyddog; yn erbyn y rhai sy'n gorthrymu'r gwas cyflog, y weddw a'r amddifad; yn erbyn y rhai sy'n gwthio'r estron o'r neilltu, ac nad ydynt yn fy ofni i," medd Duw'r Lluoedd.

Clywch air bywyd i'n byd.

Diolch a fo i Dduw.

Malachi 3:1-5

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efengylau yng Nghorff yr Eglwys

Efengyl



Y Haleliwia. **R:** Haleliwia. **Y** Beth yr aethoch allan i'w weld? Ai proffwyd? Ie, meddaf wrthyich, a mwy na phroffwyd.

R: Haleliwia.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Mathew.

Gogoniant i ti, O Grist.

Bryd hynny: Pan glywodd Ioan yn y carchar am weithredoedd Crist, anfonodd trwy ei ddisgyblion a gofyn iddo, “Ai ti yw’r hwn sydd i ddod, ai am rywun arall yr ydym i ddisgwyl?” Ac atebodd Iesu hwy, “Ewch a dywedwch wrth Ioan yr hyn yr ydych yn ei glywed ac yn ei weld. Y mae’r deillion yn cael eu golwg yn ôl, y cloffion yn cerdded, y gwahangleifion yn cael eu glanhau a’r byddariaid yn clywed, y meirw yn codi, y tlodion yn cael clywed y newydd da. Gwyn eu byd y sawl na fydd yn cwmpo o’r hachos i.” Wrth i ddisgyblion Ioan fynd ymaith, dechreuodd Iesu sôn am Ioan wrth y tyrfaeodd. “Beth yr aethoch allan i’r anialwch i edrych arno? Ai brwynen yn siglo yn y gwynt? Beth yr aethoch allan i’w weld? Ai un wedi ei wisgo mewn dillad esmwyth? Yn nhai brenhinoedd y mae’r rhai sy’n gwisgo dillad esmwyth. Beth yr aethoch allan i’w weld? Ai proffwyd? Ie, meddaf wrthyich, a mwy na phroffwyd. Dyma’r un y mae’n ysgrifenedig amdano: ‘Wele fi’n anfon fy nghennad o’th flaen, i baratoi’r ffordd ar dy gyfer.’”

Dyma Efengyl ein Gwarddwr.

Moliant i ti, O Grist.

Mathew 11:2-10

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

Pregeth yn y gyfres

“A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith”

“Wele fi’n anfon fy nghennad o’th flaen” | Y Proffwydi

Yn ystod yr Adfent rydym yn paratoi’r ffordd ar gyfer y Gair. Dros y Dolih, dathlwn y Gair a wnaethpwyd yn gnawd, yn preswyllo gyda ni. Nid yw’r paratoad a’r dathlu hwn ar gyfer rhyw ddigwyddiad hanesyddol, oherwydd mae Crist, y Gair, wedi’i eni ynom ni heddiw a phob dydd. Ein tasg feunyddiol yw paratoi a dathlu – gwir “adnabod” Duw yn ein plith. Mae gair Duw yn y Beibl, i ni, yn ffordd hollbwysig o adnabod gwir Air Duw yn ein plith. Mae ein hastudiaeth o’r Beibl yn baratoad ar gyfer adnabod Duw; ein myfyrdod llawen ar eiriau’r Beibl yn ddathliad o Dduw yn preswyllo yn ein meddyliau a’n calonau. Mae’r Beibl yn gasgliad cyfoethog o ysgrifau, a bydd ein pregethau yn y gyfres hon yn archwilio’r ystod o weithiau ac ymadroddion a ganfyddwn wrth ddarllen a chlywed ac adnabod gair Duw yn y Beibl.

Y Canon dros Fwyd Cynulleidfaol

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed


Glân Fedydd

At y Fedyddfaen

Awn rhagddom mewn tangnefedd.

Yn Enw Crist. Amen.

Emyn



O Waredwr mawr y ddaear
ganwyd gynt ym Methlem dref;
daw'r cenedloedd oll i'th ganmol,
Mab i Dduw sy'n blentyn Nef.

Nid ewyllys dyn fu'th hanes
ond yn rodd i ni drwy ras,
cariad dwyfol yw dy anian
sanctaidd yw dy nefol dras.

Dwyfol blentyn, tyrd i'n canol
fel y gallom weled Duw
a chael profi gwyrth dy gwmni
a darganfod beth yw byw.

Wrth it wisgo cnawd y ddaear,
megis dyn di-hawl, di-rym
cymorth ni i werthfawrogi
i ti brofi'r hoelion llym.

Rhaid i ninnau heddiw ddeall
rym y Pasg ar lwyfan byd,
a darganfod dolen Bethlem
cysgod croes uwchlaw dy grud.

Geiriau

Emrys o Filan (c.339-c.397)

Cyfieithiad

Denzil Ieuan John

Cerddoriaeth | "Cross of Jesus"

John Stainer (1840-1901)

Dod Ynghyd

Fy enaid, bendithia Duw.

A'r cyfan sydd ynof enw sanctaidd Duw.

Dywed Iesu, "Yr wyf fi wedi dod er mwyn i chwi gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder."

Penderfyniad

Mae'r bywyd Cristnogol yn golygu troi oddi wrth ddrygioni a throi at Grist.

Fel yr wyt yn sefyll yn awr gyda Christ: a wyt yn ymwrthod â'r drwg?

Yr wyf yn ymwrthod â'r drwg.

Wrth i ti geisio yn awr ei ddilyn: a wyt yn troi at Grist?

Yr wyf yn troi at Grist.

Bobl Cadeirlan Deiniol Sant, ynghyd â'r Disgybl Bedydd ger ein bron, bydded inni gadarnhau ffydd ein Bedydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,
a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,
a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,
✠ Dad, Mab ac Ysbryd Glân.
Amen.**

Arwyddir y Disgybl Bedydd ar gleidr eu dwylaw ag Olew Disgybl Bedydd

Mae Crist yn dy hawlio drosto'i hun. Derbynn arwydd ei Groes.

Bendithio'r Dyfroedd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Dyrchefwch eich calonnau.

Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

Diolchwn i ti, Sanctaidd Dad, Hollalluog, Dragwyddol Dduw, am i ti ordeinio Dŵr y Bedydd i aileni plant y byd trwy dy annwyl fab, a eneiwyd â'r Ysbryd Glân pan fedyddiwyd ef yn afon lorddonen, ac wedi ei Angau gwaredigol a'i Atgyfodiad nerthol, a orchynnodd i'w Apostolion fynd allan a gwneud disgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. Gwranddo, felly, weddiau dy Eglwys; † sancteiddia'r dŵr hwn er dirgel lanhad oddi wrth bechod, fel y bydd i'th gyfryw blentyn, a Fedyddir ynddo'n awr, dderbyn cyflawnder dy ras, ac aros byth ymhlith dy ffyddloniaid. Trwy Iesu Grist ein Gwaredwr, y bo iddo gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân bob anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd.

Amen.

Bedyddio

Cailix Emrys Lawrie,
yr wyf yn dy fedyddio di
yn Enw'r Tad
a'r Mab
a'r Ysbryd Glân.

Amen.

Eneinio

Cailix Emrys Lawrie, er dy fwyn di y daeth Iesu Grist i'r byd; er dy fwyn di y bu iddo ddangos cariad Duw'n ei fuchedd; er dy fwyn di y dioddefodd angau ar y Groes; er dy fwyn di y bu fuddugol dros angau, gan gyfodi i newydd fywyd; er dy fwyn di y mae'n gweddïo ar ddeheulaw Duw: hyn oll er dy fwyn di cyn i ti wybod dim byd o'r peth. Yn dy Fedydd di y caiff geiriau'r Ysgrythur eu cyflawni: "Yr ydym ni'n caru, oherwydd yn gyntaf i Dduw ein caru ninnau."

Mae'r un sydd newydd eu Bedyddio yn cael eu heneinio ar eu talcen ag Olew'r Crism

Y mae sêl yr Ysbryd Glân yn awr arnat yn dy Fedydd, i'th gynnal yng nghariad Crist am byth.

Amen.

Dwyn i gof ein haddewidion Bedydd

Bydded i Dduw sanctaidd a hollalluog, a roddodd i ni, ynghyd â'r holl gwmni'r Bedyddiedig, enedigaeth newydd trwy ddŵr a'r Ysbryd Glân, ein cadw'n ffyddlon i'n Bedydd, a'n gwneud yn barod ar gyfer y dydd hwnnw pan y perffeithir yr holl greadigaeth yn ein Hiachawdwr Iesu Grist.

Amen.

Parhawn ar ein traed, ac fe'n taenellir â Dwfr Sanctaidd fel coffadwriaeth o'n haddewidion Bedydd; gwneir Casgliad yn ystod yr Emyn

Cymun

Emyn



Cyn it ddyfod gynt i drigo
gyda dynion, Arglwydd glân,
ti ddanfonaist dy genhadwr
i bar'toi dy fordd o'th faen;
dyro heddiw, dyro heddiw
i'th genhadon gyfryw ras.

Caniatâ i'th weinidogion
goruchwylwyr da dy dŷ,
lwyr arloesi fordd it eto
i galonnau myrdd di-ri';
trwy droi'r cyndyn, trwy droi'r cyndyn
i ddoethineb bur dy saint.

Yna ar dy ail-ddyfodiad
i awn farnu dynol-ryw,
caffer ninnau'n gymeradwy
yn dy olwg di, ein Duw,
trwy ryglyddon, trwy ryglyddon
dy ddiodefaint ar y Groes.

Geiriau

o "Casgliad o Salmu a Hymnau" (1831)

Cerddoriaeth | "Rhuddlan"

o "Musical Relicks of Welsh Bards" (1800)

Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

Offrwm

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.
Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneiddio.
Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.

Gweddi Ewcharistaidd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Dyrchefwch eich calonnau.

Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

lawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

A ddaeth i'n plith yng nghyflawniad yr amser gan agor inni ffordd iachawdwriaeth. Gwyliwn yn awr am y dydd pan ddaw drachefn i farnu'r byd, gan ddatguddio goleuni ei bresenoldeb, fel y gwelwn ei allu a'i ogoniant.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd Arglwydd, Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf.

✠ Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.

Cerddoriaeth

Offeren Glyn Rhosyn, Meirion Wynn Jones

Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwytwch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfych o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfych ef er cof amdanaf. ✠

Cyhoeddwn ddirgeledd y ffydd.

Bu farw Crist.

Atgyfododd Crist.

Daw Crist mewn gogoniant.

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio lesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deunw â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewyddu ni a phawb y gweddiwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.

✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

Tangnefedd

Hyn yw trugaredd dy galon, O Grist – daw'r wawrddydd oddi uchod i'n plith i ddatguddio ein hundeb ynot ti; dy gorff torredig yn gyflawn pan ymddangosi.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn

Torri

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dangnefedd.

Cerddoriaeth

Offeren Glyn Rhosyn, Meirion Wynn Jones

Cymuno

✠ Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.

Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.

**Waredwr, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,
ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

Deuwn i Gymuno, gan ddilyn cyfarwyddyd y Stiwardiaid, o'r Afrlladen Sagrafennol ac, os y dymunwn, o'r Gwerthfawr Waed

Motét

Ond pwy a oddef ddydd ei ddyfodiad? A phwy a saif pan ymddangoso efe? Canys y mae efe fel tân y toddydd.

Geiriau

Malachi 3:2

Cerddoriaeth

Georg Friedrich Händel (1685-1759)

Ar ôl i bawb Gymuno, safwn i ganu'r emyn

Emyn



Clywch yr eglur lais yn galw,
“Crist,” medd ef, “gerllaw y sydd”;
holl freuddwydion y tywyllwch
bwriwch ymaith, blant y dydd.

Gyda’r rhybudd doed yr enaid
fry o faglau daear lawr,
Crist, ei haul, gan wasgar syrthni,
sy’n tywynnu gyda’r wawr.

Wele’r On a hir ddisgwyliwyd,
gyda phardwn daw o’r nef,
awn ar frys gan wylo dagrau
am faddeuant ato ef.

Eto, gyda grym pan ddelo,
nes bod daear lawr mewn braw,
deued fel in hamddiffynnwr
ar gymylau’r wybren draw.

Geiriau

Lladin o’r chweched ganrif

Cyfieithiad

Thomas Gwynn Jones (1871-1949)

Cerddoriaeth | “Merton”

William Henry Monk (1823-1889)

Gweddi Ôl-Gymun

Gweddiwn.

Nefol Dad, sy'n llawenhau â'r coffâd blynyddol am enedigaeth dy unig Fab, Iesu Grist: caniatâ i ni, sy'n paratoi i'w dderbyn yn waredwr, edrych arno'n llawn hyder pan ddaw yn farnwr arnom; trwy'r un Iesu Grist ein Gwaredwr.

Amen.



Ymadael

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Lewyrched Crist, Haul cyfiawnder, arnoch a chwalu'r tywyllwch o'ch blaen; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Awn ymaith mewn tangnefedd.

Yn Enw Crist. Amen.

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael; yna eisteddwn neu ymadael

Offrymddarn ar yr organ

Byrfyfyrio Corâl ar "Wachet auf", Sigfrid Karg-Elert (1877-1933)



MESEIA MESSIAH

GEORGE FRIDERIC HANDEL
CÔR A CHERDDORFA
CADEIRLAN DEINIOL SANT
THE CHOIR & ORCHESTRA
OF SAINT DEINIOL'S
CATHEDRAL
JOE COOPER
ARWEINYDD | CONDUCTOR

Perfformiad cerddorfaol o gampwaith gogoneddus George Frideric Handel, yn awyrgylch godidog Cadeirlan Deiniol Sant yn Mangor

An orchestral performance of George Frideric Handel's wonderful masterpiece, in the glorious surroundings of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor

DYDD SUL
18 RHAGFYR 2022
SUNDAY
18 DECEMBER 2022
6.00PM

£12 Pris llawn Full price
£8 Consesiynau Concessions
Plant am ddim Children free



NAW LLITH A CHAROL Y NADOLIG NINE LESSONS & CAROLS OF CHRISTMAS

Ar drothwy'r Nadolig, ymunwch â ni wrth i ni deithio i Fethlehem, gyda darlleniadau traddodiadol a charolau yng ngolau cannyll yn adrodd hanes genedigaeth Crist

On the threshold of Christmas, join us as we journey to Bethlehem, with traditional readings and carols by candlelight telling the story of Christ's birth

**DYDD IAU
22 RHAGFYR 2022
THURSDAY
22 DECEMBER 2022
6.00PM**

Mae mynediad yn rhad ac am ddim, ac mae croeso cynnes i bawb
Entrance is free, and all are welcome

I fod yn siwr o'ch sedd, archebwch eich sedd am ddim

To be sure of a seat, reserve your seat for free



Hysbys



Cinio Dewch i Rannu

Mae'n diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd fwyd, diod a'u hamser i'n Cinio Dewch i Rannu y Sul diwethaf. Mae'n Cinio Dewch i Rannu yn gyfle am sgwrs, difyrrwch, croeso a charedigrwydd. Edrychwn ymlaen at gyhoeddi dyddiadau Cinio Dewch i Rannu 2023 maes o law.

Naw Llith a Charol yr Adfent

Braf oedd gweld cymaint yn bresennol ar gyfer gwasanaeth Naw Llith a Charol yr Adfent ddydd Sul diwethaf yng ngolau kannwyll. Roedd ansawdd y gerddoriaeth a'r litwrgi yn dyst i waith caled gydol y flwyddyn gan ein cerddorion a'r rhai sy'n paratoi ac yn gwasanaethu yn ein haddoliad.

Pier Garth Bangor

Cynhelir Cyngerdd Nadolig Ffrindiau Pier Garth Bangor y prynhawn yma ar y Pier am 4pm. Bydd Côr y Gadeirlan a chynrychiolwyr o eglwysi'r ddinas yn cymryd rhan. Er mwyn galluogi ein cyfranogiad, cynhelir Gosber ar Gân heddiw ychydig yn gynharach am 3pm.

Datganiadau Paned

Pob dydd Iau
11.15am am 45 munud
Paned a chacen o 10.45am

15 Rhagfyr | Jeffrey Williams | Baritôn

Mae Jeffery'n Ysgolhaig Preswyl Gwadd mewn cerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor, yn cynnal ymchwil i Ganeuon Celf Cymreig.

Carolau ar Wib

Da yw bod pob sedd wedi ei gwerthu ar gyfer Carolau ar Wib, ein cyngerdd gaeaf teuluol, sy'n cynnwys perfformiad o *The Snowman* gan Howard Blake gyda thaf luniad fideo, nos Lun yma. Diolch i bawb o bob rhan o deulu'r Gadeirlan am y gwaith i gefnogi'r digwyddiad gwych hwn.

Buchedd Bangor

Mae rhifyn newydd o **Fuchedd Bangor** yn amlinellu ein defodau tan Ddygwyl Fair y Canhwyllau, gan gynnwys ein defodau arbennig ar gyfer y tymhorau mawrion hyn, gan gynnwys:

Meseia

18 Rhagfyr am 6.00pm

Naw Llith a Charol y Nadolig

22 Rhagfyr am 6.00pm

Gwasanaeth y Preseb

24 Rhagfyr am 4.00pm

Cymun Canol Nos y Nadolig

24 Rhagfyr o 10.30pm

Dydd Nadolig

25 Rhagfyr

Holy Eucharist am 8.15am

Cymun Bendigaid ar Gân am 9.15am

Choral Holy Eucharist am 11am

Yr wythnos

Dydd Llun | Monday

12.30pm Cymun | Eucharist

6.00pm Carolau ar Wib | Carols with the Snowman

Dydd Mawrth | Tuesday

9.00am Camau Bach

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Mercher | Wednesday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Iau | Thursday

11.15am Datganiad Paned | Coffee-break Recital

12.30pm Cymun | Eucharist

2.00pm | **Eglwys y Groes** Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Gwener | Friday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Sadwrn | Saturday

12.30pm Cymun | Eucharist

18 Rhagfyr | Pedwerydd Sul yr Adfent | 18 December | The Fourth Sunday of Advent

8.15am Holy Eucharist

9.15am Cymun Bendigaid ar Gân

Cymun y Cymry II, Harper; Tystiolaeth Ioan, Gibbons; Preliwd yn C leiaf, BWV 546, Bach

11.00am Choral Holy Eucharist

Missa brevissima, Eberlin; Every valley shall be exalted, Handel; Rhapsody on "Helmsley", Lloyd Webber

6.00pm Meseia | Messiah

Ein gweddi

Ein cymuned Myfyrwyr Prifysgol Bangor a chymdeithasau'r myfyrwyr

Ein hesgobaeth Ardal Weinidogaeth Bro Eryri

Yn glâf Joy Levine, offeiriad; David Beale; Caitriona Carroll; Param Cumaraswamy; Blodwen Jones; Elizabeth Koeping; Dorothy Dickie; Malcolm Dickie; Mas Nadiya; Sue Edwards

A fu farw'n ddiweddar Ned Rorem; Ann Loades

Gŵyl goffa —

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004 Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Mae ein cloriau yn ystod yr Adfent yn cynnwys brasluniau animeiddio o gyfres S4C ar straeon yr Hen Destament, o gasgliadau Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol

Deiniol Sant ym Mangor

The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Esgob ac Archesgob Cymru

Y Parchediac Andrew T. G. John

Bishop & Archbishop of Wales

The Most Rev Andrew T. G. John

Is-Ddeon | Sub-Dean

Canon Siôn B. E. Rhys Evans

sionrhys-evans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fywyd Cynulleidfaol

Canon for Congregational Life

Canon Tracy Jones

tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd | Director of Music

Joe Cooper

joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd | Organist

Martin Brown

martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinidog Teulu | Family Minister

Naomi Wood

naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk

Clerc y Cabidwl | Chapter Clerk

Robert Jones

robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cwstos | Custos

Simon Taylor

simontaylor@eglwysyngnghymru.org.uk

Trysorydd | Treasurer

Kelly Edwards

kellyedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinyddwr Liturgi | Liturgy Administrator

Sam Jones

samjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Rheolwr Prosiect Cadwraeth a Datblygu

Conservation & Development Project Manager

Simon Ogdon

simonogdon@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Secundus

Canon David Thomas Morris

davidmorris@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritus | Canon Emeritus

Canon Angela Williams

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan

Members of the Cathedral's College of Priests

Y Parchg Ddr | The Revd Dr John Prysor-Jones,

y Tra Pharchg Athro | the Very Revd Prof.

Gordon McPhate, y Parchg | the Revd Peter

Kaye

Darllenydd | Reader

Elma Taylor

Pensaer y Gadeirlan | Cathedral Architect

Simon Malam

Rhif elusen | Charity number 1158340

Cefnogaeth

Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.

1 I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganwch y cod QR isod.

2 Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswilt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio cerdyn neu ffôn.

Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.

